# Y CYNGOR

**Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd am 14.15 ar 26 EBRILL 2024, trwy Microsoft Teams.**

Yn bresennol: Ms Meri Huws, Cadeirydd y Cyngor (Cadeirydd); yr Athro Jon Timmis, Is-Ganghellor; yr Athro Tim Woods, Dirprwy Is-Ganghellor (Dysgu, Addysgu a Phrofiad y Myfyriwr); Ms Kate Eden; Ms Kylie Evans; yr Athro Simon Green; Miss Elain Gwynedd, Llywydd UMCA; Mrs Ellen ap Gwynn; Dr Louise Marshall; Ms Rhuanedd Richards; Mr Arwel Thomas; Mr Mark Tweed; Ms Jane Usherwood; Mr Bayanda Vundamina, Llywydd UMAber; a'r Athro Reyer Zwiggelaar.

Yn gweinyddu: Mr Simon Crick, Cyfarwyddwr Cyllid a Chynllunio; Dr Gwawr Taylor, Ysgrifennydd y Brifysgol a Chyfarwyddwr y Gymraeg; a Mr Steve Thomas, Pennaeth Cyfathrebu a Materion Cyhoeddus.

## 53. CROESO, YMDDIHEURIADAU A GWRTHDARO BUDDIANNAU

Croesawyd yr Aelodau i'r cyfarfod a diolchwyd iddynt am fod yn bresennol yn y cyfarfod arbennig .

Nid oedd ymddiheuriadau wedi dod i law.

Nodwyd y byddai unrhyw newidiadau arfaethedig yn debygol o effeithio ar bob aelod o staff sydd ar y Cyngor.

Nododd Jane Usherwood ei bod yn briod ag Is-Ganghellor prifysgol yn Lloegr. Cytunwyd nad oedd hyn yn cael ei ystyried yn wrthdaro uniongyrchol ond y byddai'n cael ei nodi i ddibenion cyflawnder.

## 54. MATERION ARIANNOL

Cylch Cynllunio a Chyllideb 2024/2025

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Simon Crick, Cyfarwyddwr Cyllid a Chynllunio (COU2324-103).

NODWYD

1. Roedd angen gwneud newidiadau sylweddol, a byddai hyn yn gofyn am gryn dipyn o waith dros y misoedd nesaf. Gwnaed llawer o gynnydd, ond mae angen rhagor o waith.

2. Mae costau'n cael eu torri lle bo modd, ond mae'r cyfleoedd i wneud arbedion sylweddol cyn diwedd y flwyddyn yn prinhau.

3. Mae'r cynnydd yn y ffioedd, fel y trafodwyd yng nghyfarfod blaenorol y Cyngor, wedi'i gymeradwyo gan CCAUC.

4. Amcangyfrifir y gellir gwneud arbedion o £5.3 miliwn, yn seiliedig ar y cynlluniau y cytunwyd arnynt. Mae cost hefyd i newidiadau staff posib, felly byddai'r arbedion ychydig yn is i adlewyrchu’r costau hynny.

5. Cafodd arweinwyr gweithredol a Phenaethiaid Adrannau y dasg o arbed 10% o’u cyllidebau am 2024-25. Ni chafodd hyn ei gyflawni ymhob maes.

6. Trafododd yr aelodau faterion diwylliant yn gysylltiedig â newidiadau ledled y Brifysgol, yn cynnwys agwedd wrthwynebus i newid mewn rhai meysydd a theimladau llesg tuag at newid yn dilyn proses flaenorol y Cynllun Gweithredu Cynaliadwyedd. Gofynnwyd a oedd y newidiadau a gynigiwyd yn ddigon pellgyrhaeddol.

7. Mae'r cynnydd yn y risg ym maes denu myfyrwyr rhyngwladol yn effeithio ar sawl sefydliad. Mae'r Cyfarwyddwr Marchnata a Denu Myfyrwyr wedi cymryd cyfres o gamau i gymell y myfyrwyr ac i sicrhau bod rheolaethau ar waith i liniaru'r risg.

8. Oherwydd y diffyg sylweddol mewn cynilion, cynigiwyd lansio cynllun diswyddo gwirfoddol (DG) yn fuan i sicrhau arbedion digonol erbyn diwedd y flwyddyn ariannol nesaf. Byddai'r cynllun yn rhoi pwysau ar y llif arian oherwydd y taliadau cysylltiedig, a byddai angen cymorth ariannol ychwanegol dros y cyfnod nesaf. Rhoddodd swyddogion amlinelliad o’r dewisiadau sydd ar gael, gan gynnwys cysylltu â CCAUC a defnyddio'r gronfa waddol fel benthyciad.

9. Trafodwyd adolygu fframwaith yr ysgolion a'r cyfadrannau.

10. Trafododd yr aelodau’r canfyddiad fod y Brifysgol yn talu arian sylweddol tuag at yr Hen Goleg, wrth weithredu diffyg mewn cyllidebau yn ogystal â wynebu cynlluniau diswyddo gwirfoddol. Pwysleisiodd swyddogion bod arian allanol yn cyllido'r Hen Goleg, ac na fyddai rhoi'r gorau i weithio ar yr Hen Goleg yn datrys unrhyw un o'r materion sy'n cael eu hystyried ar hyn o bryd.

11. Trafododd yr aelodau’r gwahaniaeth rhwng y cynllun presennol ac unrhyw gynlluniau yn y dyfodol, a nodi na fyddai swyddi'n cael eu llenwi pe bai unrhyw aelod o staff yn dewis gadael. Trafodwyd manteision ac anfanteision cynllun DG wedi'u targedu, o’i gymharu â chynllun ehangach. Ni fyddai cynllun wedi'i dargedu yn darparu'r nifer sydd ei angen, mor gyflym ag sydd ei angen, sy’n un o'r prif yrwyr.

12. Mae'r canolbwyntio’n parhau ar y flwyddyn ariannol hon, wrth i waith fynd rhagddo ar y flwyddyn ariannol nesaf. Mae'r neges i Benaethiaid Adrannau yn pwysleisio'r angen i leihau gwariant eleni.

13. Trafododd yr aelodau’r llif arian, gan nodi bod diwedd y mis calendr yn heriol er ei fod yn cael ei reoli'n ofalus. Mae'r Adnodd Credyd Cylchdroi wedi’i ddefnyddio i’r eithaf.

14. Gofynnodd yr aelodau a oedd tybiaethau y byddai niferoedd myfyrwyr yn gwastatáu yn briodol, ac a ddylid cynnal profion straen pellach. Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Cyllid a Chynllunio bod adolygiad misol yn cael ei gynnal, a bod y rhagolygon cyllidebol yn cael eu llunio o’r newydd i sicrhau bod y ffigurau'n gyfredol, cyn iddynt gael eu cyflwyno i Weithrediaeth y Brifysgol. Nododd yr Aelodau eu cefnogaeth i ddefnyddio'r is-bwyllgorau i graffu, herio, a thrafod.

15. Awgrymwyd gwneud penderfyniadau yng nghyd-destun gwerthoedd craidd, yn ogystal â'r angen i sicrhau bod y weledigaeth am ddyfodol y sefydliad yn cael ei mynegi'n glir.

Wrth i'r sefydliad ailadeiladu ar gyfer y dyfodol, mae’n bwysig cynnal rhagoriaeth profiad y myfyriwr a mynd ati yn adeiladol i herio cyffredinedd.

16. Bu adroddiadau cyson yn y cyfryngau am y sefyllfa ar draws y sector. Mae'r nodiadau cyfathrebu ar gyfer y cyfryngau ac i randdeiliaid yn cael eu paratoi er mwyn sicrhau bod y neges yn rhagweithiol ac yn rhoi sylw i'r dyfodol.

Gadawodd Jane Usherwood y cyfarfod.

17. Bydd y Brifysgol yn parhau i fod yn brifysgol ymchwil ac addysgu.

**PENDERFYNWYD**

18. Mae angen meddwl yn fwy radical a thrawsnewidiol i ganfod yr arbedion angenrheidiol, ac i sicrhau cynaliadwyedd hirdymor y Brifysgol.

19. Cytunodd y Cyngor ar egwyddor Cynllun Diswyddo Gwirfoddol. Dylai'r Weithrediaeth ystyried y cydbwysedd rhwng cynllun i’r brifysgol yn gyffredinol a dull wedi'i dargedu, a chyflwyno argymhelliad i'r Pwyllgor Diswyddiadau i gytuno ar fframwaith ar gyfer y cynllun Diswyddo Gwirfoddol. Bydd y pwyllgor diswyddiadau hefyd yn cymeradwyo'r pecyn sydd ar gael i staff.

20. Cymeradwyodd y Cyngor darged o £3m o ddiffyg i gyllideb 2024-2025.

21. Dylid cadw unrhyw incwm o'r cynnydd yn y ffioedd yn gronfa ddatblygu ar gyfer buddsoddi. Nododd Undeb y Myfyrwyr fod eu cefnogaeth i'r cynnydd yn y ffioedd yn seiliedig ar y cytundeb y byddai myfyrwyr yn elwa o fuddsoddiad yn y dyfodol. Bydd pwyllgorau yn craffu ar y manylion a’u trafod.

22. Dylid cysylltu â swyddogion CCAUC ynghylch benthyciad o arian parod er mwyn gweithredu’r cynllun diswyddo.

23. Bydd y pwyllgorau yn ystyried y materion perthnasol yn unol â'u cylchoedd gorchwyl, ond dylid galw cyfarfod o'r Cyngor os oes angen.

**55. UNRHYW FATER ARALL, AROLWG O'R CYFARFOD, A MATERION YN Y DYFODOL**

Diolchwyd i swyddogion am fod yn agored ac i aelodau'r Cyngor am eu cefnogaeth adeiladol.

Daeth y cyfarfod i ben am 16:00.